

## DRAFFT

# CANLLAWIAU AR GYFER YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI AR NEWIDIADAU I WASANAETHAU IECHYD 2022

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

1. Nod y ddogfen hon yw rhoi canllawiau i'r GIG yng Nghymru ar gyfer cyflwyno newidiadau i wasanaethau ieched. Caiff y canllawiau blaenorol eu disodli gan fod y tirlun cyfreithiol a'r tirlun polisi wedi newid erbyn hyn. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd y canllawiau terfynol hyn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru – sef y sefydliad sy'n disodli'r rhwydwaith o Gynghorau Iechyd Cymuned – ym mis Ebrill 2023.
2. Lluniwyd y canllawiau newydd hyn ar ôl ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn cynnwys Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, Corff Llais y Dinesydd a chynllunwyr a'r GIG. Tynnodd yr ymgysylltu hwnnw sylw at y ffaith bod rhan helaeth o'r canllawiau blaenorol yn dal i fod yn briodol, ac ailadroddir hyn yn y ddogfen hon. Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr ag unrhyw Ganllaw Statudol ar Sylwadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 15(4) o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
3. Mae'r GIG wedi esblygu'n barhaus ers ei sefydlu ar 5 Gorffennaf 1948. Byddai'r modd y rhoddir gofal i bobl heddiw wedi bod y tu hwnt i'r dychymyg ar yr adeg y sefydlodd Aneurin Bevan y gwasanaeth ieched. Diolch i ddatblygiadau mewn technoleg, meddyginiaethau ac ymarfer clinigol, mae'r GIG bellach yn trin ac yn gofalu am bobl a fyddai, flynyddoedd maith yn ôl, wedi marw. Mae newid ac esblygu er mwyn cyflawni'r canllawiau clinigol diweddaraf yn elfen a welir yn gyson yn y GIG, ynghyd ag adborth gan gleifion a staff a chynnydd yn nisgwyliadau'r cyhoedd. Felly, mae'n hollbwysig i newidiadau i wasanaethau gael eu cyflwyno'n effeithiol ac mae'n bwysig i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny gael dweud eu dweud o ran y modd y byddant yn derbyn gwasanaethau.
4. Ers cyhoeddi'r canllawiau blaenorol, pasiwyd sawl Deddf sydd wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau ieched. Mae'r deddfau hyn yn cynnwys:
  - Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, a sicrhodd bod cynllunio yn sail i system ieched Cymru – sef newid o ddull comisiynu a gâi ei ysgogi gan y farchnad at system gynlluniedig, gan gyflwyno'r angen i lunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig;
  - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a aeth ati i hyrwyddo'r arfer o integreiddio ieched a gofal cymdeithasol er mwyn cynorthwyo cleifion a defnyddwyr gwasanaethau;

## DRAFFT

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sicrhodd bod cyrff cyhoeddus, yn cynnwys y GIG, yn meddwl am bethau yn yr hirdymor ac yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, a chyda'i gilydd, er mwyn atal problemau a rhoi dull mwy cydgysylltiedig ar waith; a
  - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, a gynigiodd fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru, ymhlith pethau eraill.
5. Yn ychwanegol at hyn, cyhoeddwyd Adolygiad Seneddol Annibynnol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2017, 2018) a *Cymru Iachach*, sef cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (2018). Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (2021) – sef rhywbeth a oedd yn un o ymrwymadau allweddol *Cymru Iachach*.
6. Nod cyffredinol unrhyw newid i wasanaeth yw cyflawni'r nodau a nodir yn *Cymru Iachach*:
- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth;
  - Gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
  - Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol; a
  - Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy.
7. Er y defnyddir y term 'newidiadau mewn gwasanaethau' trwy'r canllawiau hyn, yn aml defnyddir termau eraill – a chânt eu defnyddio'n gyfnewidiol – i ddisgrifio'r un peth, megis ad-drefnu, ailwampio neu ail-greu gwasanaethau.
8. Yn ychwanegol at y meini prawf uchod, mae sawl adroddiad wedi tynnu sylw at yr heriau mae'r GIG yn eu hwynebu – heriau sy'n dwysáu'r angen i newid – yn cynnwys:
- Y ffaith bod pobl yn byw'n hŷn ond nad ydynt yn byw'n iachach, a'u bod yn byw gyda chydafiachedd;
  - Cynnydd yn y boblogaeth a demograffeg newidiol;
  - Anawsterau byd-eang o ran recriwtio gweithlu iechyd proffesiynol medrus;
  - Anghydraddoldebau o ran iechyd ac iechyd y cyhoedd;
  - Newid ymarfer clinigol, cynyddu arbenigedd a datblygiadau meddygol a thechnegol er mwyn gwella canlyniadau i gleifion;
  - Adnoddau (adeiladau, pobl a chyllid);
  - Disgwyliadau deddfwriaethol a disgwyliadau'r cyhoedd; a
  - Dysgu o brofiadau o ymateb i'r pandemig

## ADRAN 2: Y CEFNDIR CYFREITHIOL

## DRAFFT

9. Yn ôl Adran 183 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau), mewn perthynas â'r gwasanaethau a gaiff eu darparu neu eu caffael ganddynt, gynnwys ac ymgynghori â dinasyddion wrth wneud y canlynol:
- Cynllunio i ddarparu gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt;
  - Llunio ac ystyried cynigion ar gyfer newid y ffordd y darperir y gwasanaethau hynny; a
  - Gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y modd y rhoddir y gwasanaethau hynny ar waith.
10. Mae Adran 242 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006* yn ymestyn y gofyniad hwn i Ymddiriedolaethau'r GIG.
11. Mae'r darpariaethau blaenorol yn Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 wedi cael eu dirymu ac nid ydynt yn berthnasol mwyach. Roedd y darpariaethau hyn yn mynnu y dylai cyrff iechyd ymgynghori â Chynghorau Iechyd Cymuned ynglŷn â newidiadau mewn gwasanaethau, ac roeddynt hefyd yn caniatáu i Gynghorau Iechyd Cymuned atgyfeirio materion at Weinidogion Cymru mewn perthynas â newidiadau mewn gwasanaethau o dan rai amgylchiadau.
12. Yn hytrach, mewn perthynas â phrif nodau Corff Llais y Dinesydd – yn cynnwys gwranddo ar fuddiannau'r cyhoedd a chynrychioli'r buddiannau hynny ym mhob rhan o Gymru, mewn materion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a darparu dull effeithiol o godi disgwyliadau pobl er mwyn ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau – gellir cyflwyno sylwadau i gyrff y GIG ynglŷn ag amrywiaeth o faterion, yn cynnwys materion yn ymwneud â newidiadau yng ngwasanaethau'r GIG. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn, yn cynnwys dyletswyddau cyrff y GIG i roi sylw i'r sylwadau hyn, yn y Canllaw Statudol ar Sylwadau a gyhoeddir o dan adran 15(4) o *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu)* (Cymru) 2020.

### **ADRAN 3: EGWYDDORION CYFFREDINOL O RAN RHEOLI NEWIDIADAU MEWN GWASANAETHAU**

13. Mae'r GIG yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau diogel a chynaliadwy ar gael i ddinasyddion Cymru, o fewn yr adnoddau a roddir gan Lywodraeth Cymru.
14. Rhaid i'r GIG barhau i ymdrechu i gynnal gwasanaethau diogel, cynaliadwy waeth beth fo pwysau'r galw, heriau ariannol a disgwyliadau.
15. Rhaid i'r GIG fod yn fwy arloesol a rhaid iddo allu trawsnewid gwasanaethau'n gyflym fel y gwnaeth yn effeithiol iawn yn ystod y pandemig. Rhaid i newidiadau mewn gwasanaethau gael eu seilio ar dystiolaeth, rhaid iddynt anelu at sicrhau'r perfformiad gorau a rhaid iddynt gael eu hategu a'u harwain gan glinigwyr. Dylai hefyd ddilyn egwyddorion

## DRAFFT

gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth sy'n ceisio sicrhau canlyniadau iechyd heb eu hail i bobl Cymru drwy edrych ar a yw'r adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio'n deg ac yn y ffordd orau.

16. Mae Corff Llais y Dinesydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r angen i sicrhau gwasanaethau diogel a chynaliadwy, ynghyd â sicrhau mynediad i bawb at arferion da o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yn bryder i'r GIG a'i ddefnyddwyr hefyd, a rhaid i'r GIG yng Nghymru weithio gyda Chorff Llais y Dinesydd er mwyn cyflawni hyn. Felly, rhaid i gyrff y GIG ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd wrth iddo weithio i wella gwasanaethau.
17. Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn sbardun pwysig i ddarparu gwasanaethau a newid gwasanaethau.
18. Mae'n bwysig i sefydliadau'r GIG weithio mewn partneriaeth â'u cymunedau i ddatblygu cynigion mewn modd gwirioneddol gydgynhyrchiol. Os caiff cynigion eu datblygu a'u cynllunio trwy fynd ati i gyd-gynhyrchu, byddant yn fwy tebygol o ennyn cefnogaeth ac esgor ar welliannau mewn gofal ac ymateb i anghenion y cleifion a'r cymunedau mae'r GIG yn anelu at eu gwasanaethu.

### **Ymgysylltu parhaus – meithrin cydberthnasau, ymddiriedaeth ac arweinyddiaeth**

19. Rhaid i'r arfer o ymgysylltu'n barhaus ynglŷn â gwasanaethau fod yn rhan o fusnes craidd y GIG yng Nghymru. Rhaid i'r GIG sefydlu a chynnal ymgysylltiad parhaus â dinasyddion, Corff Llais y Dinesydd, staff, cynrychiolwyr staff a chyrrff proffesiynol, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â phartneriaid, nid yn unig pan fydd newidiadau'n cael eu cynnig, ond yn rheolaidd hefyd. Dylai'r ymgysylltu hwnnw roi cyfle i bobl ddeall dyheadau a chyflawniadau corff y GIG a'r heriau y mae'n eu hwynebu fel y gallant ddylanwadu a llywio penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau.
20. Trwy gyfrwng ymgysylltu parhaus a rheolaidd o'r fath – a thrwy ddadansoddi adborth – bydd modd i gyrff y GIG feithrin cydberthnasau effeithiol ac adeiladol gyda'u rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Mae'n bwysig i gyrff y GIG ddangos eu bod yn gwrandao ac yn cymryd camau priodol ar sail yr adborth a gânt. Wrth wneud hynny, dylai gyrff y GIG ddilyn yr arferion gorau a amlinellir yn yr *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru (2022)*. Dylai gyrff y GIG ymgymryd â gwaith mapio rhanddeiliaid i helpu i nodi rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gallu helpu'r GIG i ymgysylltu â nhw. Dylai hyn lywio datblygiad cynllun ymgysylltu.
21. Dim ond pan fydd y GIG yn fodlon ei fod wedi archwilio'r materion yn gyntaf trwy gyfrwng ymgysylltu effeithiol y dylai fynd ati i roi newidiadau a gynlluniwyd ar waith. Dylid ystyried bod cefnogi'r broses hon, ynghyd â

## DRAFFT

sicrhau adnoddau ar ei chyfer ar hyd yr amryfal gamau, yn rhan hanfodol o waith y GIG yng Nghymru.

22. Dylai holl gyrff y GIG ddatblygu dull cadarn ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd, gan seilio'r dull hwn ar dryloywder, tystiolaeth ac arweinyddiaeth gadarnhaol. Dylid pennu swyddog arweinïol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion yn holl sefydliadau'r GIG i gefnogi newid i wasanaethau. Yn achos sefydliadau'r GIG sy'n delio â gwasanaethau ar gyfer Cymru-Lloegr neu wasanaethau trwy'r DU, dylent ystyried y ffordd orau o reoli materion o'r fath.

23. Os caiff barn dinasyddion a'r cyhoedd ei deall a'i hystyried, bydd modd dylunio gwasanaethau'n well. Mae gwrando ac ymateb yn allweddol o ran gwella a datblygu gwasanaethau gofal iechyd. Dylai gyrff y GIG fynd ati'n rheolaidd i wneud y canlynol:

- Gwrando ar farn a phrofiadau byw yr holl randdeiliaid;
- Gweithio gyda dinasyddion, cleifion, rhanddeiliaid a sefydliadau partner i gynllunio unrhyw newidiadau;
- Cydnabod bod Corff Llais y Dinesydd yn rhanddeiliad allweddol ac y gall Corff Llais y Dinesydd, drwy ymgysylltu a chael gwybodaeth berthnasol am newidiadau arfaethedig, gyflawni ei rôl o ran gwneud sylwadau ar ran dinasyddion;
- Defnyddio dull cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn cydnabod amrywiaeth y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, wrth esbonio a chyfathrebu materion neu gyfleoedd;
- Cynhyrchu dewis llawn o wybodaeth hygyrch yn sôn am wasanaethau a datblygiadau posibl yn y dyfodol, a hynny'n ddwyieithog ac mewn sawl fformat ac iaith wahanol, gan ystyried y cyfleoedd a gynigir gan y cyfryngau cymdeithasol a hefyd trwy ddefnyddio dulliau ymgysylltu a ddarperir gan asiantaethau eraill; ac
- Ymgorffori gwerthoedd a disgwyliadau bywyd yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

24. Gall sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol gyfrannu mewn modd eithriadol o bwysig at ymgysylltu effeithiol. Mae gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau sy'n ymhél â salwch/cyflyrau penodol yn helpu pobl i ymgysylltu â'u gofal trwy gynnig gwell gwybodaeth iddynt. Mae grwpiau hunanofal, megis grwpiau i ofalwyr, a grwpiau cymorth ar gyfer pobl a chanddynt gyflwr prin ac sy'n teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth wasanaethau prif ffrwd, yn mynd i'r afael â materion iechyd mewn cymunedau. Felly, gall nifer o sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol ganfod a chynrychioli barn a blaenoriaethau defnyddwyr a gofalwyr a chynnig cyswllt uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau ar draws amrywiaeth o gyflyrau.

## **DRAFFT**

25. Yn yr un modd, efallai y bydd gan y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Cyn-filwyr wybodaeth a dulliau ymgysylltu posibl a allai fod yn ddefnyddiol.
26. Dylai sefydliadau'r GIG a Chorff Llais y Dinesydd rannu arferion da, dulliau asesu a dulliau mesur perfformiad er mwyn helpu i wella effeithiolrwydd unrhyw ymgysylltu parhaus. Bydd pob newid mewn gwasanaeth, ni waeth pa mor fawr neu fach ydyw, yn darparu cyfleoedd dysgu.

## **ADRAN 4: NEWID SYLWEDDOL**

### **Ystyried newidiadau**

27. Mae Adran 3 yn ymdrin â'r ymgysylltu parhaus mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef, pa un a fydd newidiadau'n cael eu cynnig ai peidio, a nodir y disgwyliad y bydd y dull hwn yn ddull arferol ar gyfer bwrw ymlaen â newidiadau mewn gwasanaethau. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng newidiadau bach a newidiadau sylweddol neu arwyddocaol mewn gwasanaethau naill ai ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol. Dylai lefel yr ymgysylltu a'r ymgynghori fod yn gymesur â'r math o newid a gaiff ei ystyried neu ei gynnig. Fel rhan o'i asesiadau effaith sylfaenol o gynigion, a thrwy weithio gyda'i randdeiliaid, gall y GIG bennu natur a maint y newid ac a ellid ei ystyried yn sylweddol. Mae'n bwysig i sefydliadau'r GIG gofio bod y dystiolaeth a gesglir fel rhan o'r broses ymgysylltu a/neu ymgynghori yn werthfawr o ran ategu unrhyw achosion busnes angenrheidiol y bydd angen eu llunio ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau newydd – yn wir, gellir defnyddio tystiolaeth o'r fath i lunio rhai o'r penodau gofynnol yn y cyfryw achosion busnes a datblygiadau mawr eraill, hyd yn oed.
28. Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG gael strategaeth gwasanaethau clinigol a gymeradwywyd gan eu Bwrdd. Dylai'r strategaeth hon nodi eu gweledigaeth hirdymor ynglŷn â sut y byddant yn diwallu anghenion y cymunedau a wasanaethant. Mae'n hanfodol i bob sefydliad gael strategaeth fwy hirdymor fel y gellir pennu'r cyfeiriad a chynnig y cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol allweddol ynglŷn â ffurf y gwasanaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys amcanestyniadau a dadansoddiadau o boblogaethau i lywio penderfyniadau ynglŷn â modelau gwasanaeth, llwybrau, cynllunio'r gweithlu, cyllid a buddsoddi mewn seilwaith.
29. Rhaid i holl sefydliadau'r GIG sicrhau bod eu cynlluniau integredig yn cyd-fynd â'u gweledigaeth yn y tymor hwy, ei fod yn adlewyrchu'r cynnydd y disgwylir ei wneud yn ystod cyfnod y cynllun tair blynedd a'i fod yn nodi sut y bydd modd pontio i fodolau gwasanaeth y dyfodol.
30. Disgwylir y byddai newidiadau i wasanaethau yn cael eu trin fel busnes cyhoeddus ar agenda Bwrdd corff perthnasol y GIG lle dylid cyflwyno adroddiad am y newid a'i effaith ynghyd ag adroddiad am unrhyw gamau arfaethedig i liniaru unrhyw effaith niweidiol bosibl.

## DRAFFT

### Newid gwasanaeth ar draws sawl sefydliad

31. Lle mae angen i fwy nag un o sefydliadau'r GIG weithio gyda'i gilydd i ymgysylltu, cynllunio a chyflwyno newidiadau rhanbarthol neu genedlaethol i wasanaethau, dylent weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu clir ar waith o'r cychwyn sy'n egluro priod gyfrifoldebau sefydliadau unigol a sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.
32. Gall hyn fod drwy fecanweithiau sy'n bodoli eisoes megis Pwyllgorau Cynllunio Rhanbarthol, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys neu drwy drefniadau penodol eraill. Bydd hyn yn helpu i sicrhau:
  - Arweinyddiaeth glinigol a phroffesiynol gan wahanol sefydliadau;
  - Ymgysylltiad effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau â'r cyhoedd ar draws cymunedau;
  - Ystyriaeth gan bob un sy'n gwneud penderfyniadau; ac
  - Aliniad strategol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys rhwydweithiau proffesiynol a Cholegau Brenhinol.
33. Dylai'r broses ar y cyd hon gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer cynllunio a gweithredu, a dylai'r holl sefydliadau barhau i weithio yn ôl yr amserlenni, oni bai y ceir consensws ymhlith pob sefydliad y dylid newid y cyflymder.
34. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n rhaid i newid i wasanaethau sy'n rhychwantu nifer o ardaloedd ffiniau sefydliadol y GIG hefyd gael eu hategu a'u tystiolaethu gan asesiad effaith, sy'n ystyried manteision neu risgiau cymharol y newid arfaethedig.
35. Yn achos ymgysylltiad parhaus, a hefyd yn achos ymgynghoriadau penodol, rhaid i gyrff y GIG sicrhau yr ymdrinnir â'r holl fuddiannau lleol, a bod cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg yn cael eu bodloni, gan gynnwys asesiadau effaith. Dylai'r trefniadau ymdrin â'r ardaloedd daearyddol, ynghyd ag anghenion diwylliannol ac ieithyddol y cymunedau a wasanaethir

### Ymgynghoriad ffurfiol

36. Efallai y deuir ar draws rhai achosion pan fydd angen mynd ati, fel eithriad, i gynnal ymgynghoriad ffurfiol. Mater allweddol wrth benderfynu a fydd angen cynnal ymgynghoriad ffurfiol, ai peidio, yw natur y newid – hynny yw, a yw'n newid sylweddol. Yn gyffredinol, dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol pan fo'r newid yn newid sylweddol; er, efallai na fydd hynny'n briodol mewn achosion pan na fydd y cynnig yn ddadleuol. Efallai hefyd y bydd yn briodol cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer newid nad yw'n newid sylweddol. Gall Corff Llais y Dinesydd gyflwyno sylwadau naill ai fel rhan o'r cyfnod ymgysylltu neu fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ffurfiol (os cynhelir cyfnodau o'r fath), a rhaid i gyrff y GIG roi sylw priodol i'r sylwadau hynny, fel y nodir yn y canllawiau ar sylwadau.

## DRAFFT

37. Pan fo'n debygol y bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal, cynigir y dylid cynnal ymgynghoriadau o'r fath ar ffurf dau gam. Yn ystod y cam cyntaf, dylai sefydliadau'r GIG gynnal trafodaeth helaeth gyda'r holl randdeiliaid allweddol, yn cynnwys, fel y bo'n briodol:

- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid;
- Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol;
- Fforwm Partneriaeth Lleol;
- Corff Llais y Dinesydd;
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- staff a'u cyrff cynrychiadol;
- partneriaid allweddol eraill, megis comisiynwyr gofal iechyd neu ddarparwyr y gallai'r newid effeithio arnynt, er enghraifft, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru neu fwrdd iechyd/Ymddiriedolaeth gyfagos.

38. Diben y trafodaethau hyn fydd archwilio'r holl faterion posibl er mwyn mireinio'r opsiynau a phenderfynu a chytuno ar y cwestiynau a gynhwysir yn yr ymgynghoriad. Pan fydd sefydliad y GIG yn fodlon bod y cam cyntaf hwn wedi'i gynnal yn briodol, dylai corff y GIG symud yn ei flaen at yr ymgynghoriad ffurfiol.

39. Yn dilyn y cam cyntaf a nodir uchod, dylai cyfnod ymgynghori o 6 wythnos fan leiaf fod yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion, cyn belled ag yr aethpwyd ati eisoes i archwilio'r materion yn llwyr yn ystod y cam cyntaf - ond bydd yn dibynnu'n gryf ar holl amgylchiadau'r mater penodol. Dylai BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG ofyn am eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain ynghylch a yw'r ymgynghoriad yn gyfreithlon, a fydd yn cynnwys a yw'r amserlen a roddir ar gyfer ymgynghori ac ymateb yn ddigonol ac yn deg.

40. Dylai unrhyw ymgynghoriad gydymffurfio â phedair Egwyddor Gunning (1985) sy'n nodi'r canlynol:

- Rhaid i'r ymgynghoriad ddigwydd pan fydd y cynnig mewn cyfnod ffurfiannol. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus fod â meddwl agored yn ystod ymgynghoriad ac ni ddylai fod wedi gwneud y penderfyniad eisoes, ond efallai y bydd ganddynt rai syniadau am y cynnig;
- Rhaid cyflwyno rhesymau digonol ar gyfer y cynnig er mwyn caniatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. Rhaid i ymgynghorwyr fod â digon o wybodaeth i allu gwneud mewnbwn gwybodus i'r broses;
- Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. Rhaid i amseriad ac amgylchedd yr ymgynghoriad fod yn briodol, rhaid rhoi digon o amser i bobl ddatblygu barn wybodus ac yna rhoi adborth, a rhaid rhoi digon o amser i'r canlyniadau gael eu dadansoddi; a
- Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol



## DRAFFT

41. Dylid mynd ati ar y cychwyn cyntaf i ystyried nifer o ffactorau, oherwydd bydd y materion hyn yn effeithio ar benderfyniadau a wneir yn ystod y gwahanol gamau drwy gydol y broses ymgynghori ffurfiol.

- Beth yw priod gyfrifoldeb pob un o sefydliadau lleol y GIG?
- A gynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad blaenorol ar yr un mater, ar fater cysylltiedig neu ar fater tebyg, e.e. ar gyfer gwasanaethau'r awdurdod lleol?
- A yw Corff Llais y Dinesydd neu'r Cynghorau Iechyd Cymuned gynt wedi cyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r un mater neu fater cysylltiedig / tebyg o'r blaen?
- Â phwy y dylid ymgynghori, ynglŷn â beth, a sut?
- A fydd y materion hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau eraill y GIG, yn arbennig rhai a chanddynt nam ar y synhwyrâu neu anabledau?
- A oes yna faterion sy'n effeithio ar ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr?
- Pa adnoddau sy'n angenrheidiol a pha adnoddau sydd ar gael?
- Sut y bydd modd ymdrin ag unrhyw wrthdaro/cwynion?
- Sut y bydd y canlyniad yn cyfrannu at y broses benderfynu?
- Pryd a sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud?
- Sut y bydd y canlyniadau'n cael eu bwydo'n ôl i gleifion, staff a dinasyddion a fu'n gysylltiedig â'r broses, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? A fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar y cyfryngau er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd ehangach?
- A fydd yr ymgynghoriad yn cael ei werthuso, a sut?
- Pryd dylid cynnal asesiadau effaith – a fydd y newid arfaethedig yn effeithio'n anghymesur ar gymuned neu gymunedau arbennig?
- Beth yw'r amserlen ar gyfer y broses gynnwys a'r broses ymgynghori?
- Beth yw'r effaith ar wasanaethau cysylltiedig?

42. Wrth reoli'r broses, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y canlynol:

- Bydd uwch-glinigwyr yn ysgwyddo rôl arweiniol wrth gyflwyno a chefnogi'r newid arfaethedig;
- Bydd corff y GIG sy'n gyfrifol am arwain yr ymgynghoriad yn gweithio mewn partneriaeth â'i gymheiriaid yng nghyrrff lleol eraill y GIG;
- Bydd cyrrff y GIG yn buddsoddi adnoddau digonol fel y gellir rheoli'r broses yn effeithiol o'r dechrau i'r diwedd, a hynny mewn modd agored a thryloyw;
- Bydd cyrrff y GIG yn rhoi gwybod i Gorff Llais y Dinesydd am eu cynigion, byddant yn cyflwyno unrhyw wybodaeth angenrheidiol ac yn delio ag unrhyw sylwadau canlyniadol, yn unol â'r Canllaw Statudol perthnasol; a

## DRAFFT

- Lle bo'n briodol, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau yr ystyrir ac yr ymdrinnir â'r cynigion yng nghyd-destun y "system gyfan" sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

### **Dylai dogfennau ymgynghori wneud y canlynol:**

- Esbonio'r achos dros newid, pam mae angen cyflwyno'r newid a darparu tystiolaeth glir;
  - Cynnwys gweledigaeth glir o'r gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol;
  - Esbonio'r canlyniadau a fydd yn deillio o'r newid neu'r canlyniadau a fydd yn deillio o gynnal y sefyllfa bresennol – o ran ansawdd, diogelwch, hygyrchedd ac agosrwydd gwasanaethau;
  - Cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau;
  - Yn achos newidiadau'n ymwneud ag ysbytai, dangos sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol o fewn model gwasanaeth integredig;
  - Nodi'n glir y dystiolaeth ar gyfer cynigion i grynhoi gwasanaethau ar un safle;
  - Cynnwys tystiolaeth sy'n dangos bod clinigwyr yn cefnogi'r newid arfaethedig;
  - Yn achos newidiadau a ysgogir gan faterion llywodraethu clinigol, dangos sut y cafodd y newidiadau hyn eu profi trwy adolygiad annibynnol;
  - Dangos pa opsiynau a ystyriwyd yn ystod y cam ymgysylltu – os caiff opsiwn a ffeirir ei amlinellu, rhaid i'r GIG sicrhau na fydd hyn yn cael ei ystyried fel 'fait accompli';
  - Esbonio unrhyw risgiau a sut y byddant yn cael eu rheoli;
  - Cynnig darlun clir o'r goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth y gwahanol gynigion;
  - Nodi'r rhai y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt a sut caiff eu buddiannau eu hamddiffyn;
  - Esbonio sut y bydd newidiadau a manteision yn cael eu gwerthuso ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith;
  - Cyfathrebu'n ddwyieithog ac mewn sawl fformat gwahanol, yn briodol i anghenion y cleifion a'r cymunedau yr effeithir arnynt; a
  - Sicrhau bod y Bwrdd wedi cytuno i'r newidiadau.
43. Dylai cyrff y GIG ddatblygu cysylltiadau â'r cyfryngau a gweithio gyda nhw i esbonio'r newidiadau a'u heffeithiau mewn modd a fydd yn ddealladwy i ddinasyddion. Rhaid i'r broses ymgynghori fod yn ddilys ac yn dryloyw. Drwy gydol y broses, dylid cynnal trafodaeth agored gyda dinasyddion, staff y GIG, cynrychiolwyr staff a chyrff proffesiynol, rhanddeiliaid, Corff Llais y Dinesydd, y trydydd sector a sefydliadau partner.

## DRAFFT

44. Dylai corff y GIG sy'n gyfrifol am gynllunio'r ymgynghoriad geisio barn llunwyr safbwyntiau ac arweinwyr yn y gymuned, megis gwleidyddion ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, grwpiau cleifion, sefydliadau proffesiynol a grwpiau gwirfoddol perthnasol, ynghyd â'r rhai y gallai'r newidiadau posibl effeithio arnynt.
45. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, os ceir consensws ac os na chrybwyllwyd pryderon, bydd modd i gorff y GIG roi ei gynigion ar waith, yn amodol ar unrhyw ganiatâd neu gydsyniad arall y gall fod ei angen.
46. Dylai cyrff y GIG ystyried pa mor dda y gweithiodd y broses ymgynghori, a pha un a lwyddodd i gyrraedd disgwyliadau'r rhai a gymerodd ran ynddi. Dylid asesu hyn yn erbyn y dulliau mesur a bennwyd yn ystod y cam cynllunio a dylid rhoi adborth i randdeiliaid ynglŷn â chanlyniadau'r ymgynghoriad.

### **ADRAN 6: NEWIDIADAU BRYN I WASANAETHAU**

47. Ceir trefniadau arbennig pan fo corff y GIG o'r farn bod angen gwneud penderfyniad ynglŷn â mater yn syth er lles y gwasanaeth iechyd neu oherwydd rhyw risg i ddiogelwch neu lesiant cleifion neu staff. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl na fydd modd i gyrff y GIG ymgysylltu nac ymgynghori'n ffurfiol; ond os oes ganddynt broses ymgysylltu barhaus ar waith, ni ddylai newidiadau o'r fath fod yn syndod i randdeiliaid, oherwydd byddant yn ymwybodol o'r heriau o ran darparu rhai gwasanaethau.

#### **Dyma rai arferion da:**

- Rhaid i gorff y GIG wneud pob ymdrech i hysbysu'r holl fuddiannau perthnasol ynglŷn â'r trefniadau newydd cyn i'r newid gael ei roi ar waith;
  - Rhaid i gorff y GIG gyflwyno gwybodaeth i Gorff Llais y Dinesydd ynglŷn â'r modd y rhoddwyd gwybod i gleifion a gofalfwyr am y newid yn y gwasanaeth, a pha drefniadau amgen a roddwyd ar waith er mwyn diwallu eu hanghenion; a
  - Dylai sefydliad y GIG nodi pa gamau a gymerir ganddo er mwyn sicrhau y gellir dychwelyd at drefniadau arferol y gwasanaeth neu ddarparu dewis arall gwell.
48. Er mwyn ceisio atal anawsterau rhag codi mewn perthynas â phenderfyniadau brys o'r fath, dylai cyrff y GIG gymryd camau rhagofalus. Dylid paratoi cynlluniau wrth gefn ar gyfer gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uchel a dylid mynd ati'n gynnar yn y broses i rannu'r cynlluniau hyn gyda sefydliadau perthnasol y GIG, Corff Llais y Dinesydd a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Yn achos pob cynllun wrth gefn, dylid cynnal asesiad risg ac asesiad effaith ar gyfer yr holl opsiynau.

## **DRAFFT**

49. Dylai corff y GIG gymryd camau brys i sicrhau bod y newid yn cyd-fynd â'r gofynion sydd fel arfer yn berthnasol. Dylai sefydliad y GIG roi proses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr ar waith os yw'n dymuno i'r newid brys fod ar waith yn barhaol.

## **ADRAN 7: PAN FO ANGHYTUNDEB**

50. Nod y ddogfen hon yw cynnig cyngor a chymorth er mwyn galluogi sefydliadau'r GIG i gyflwyno newidiadau angenrheidiol i wasanaethau. Fodd bynnag, er gwaethaf y canllawiau helaeth, ceir adegau pan fydd pobl neu sefydliadau yn anfodlon â'r canlyniad. Un o rolau'r Cynghorau Iechyd Cymuned gynt oedd atgyfeirio pryderon o'r fath at y Gweinidog, fel y gellid gwneud penderfyniad; ond nid yw'r rôl hon yn berthnasol mwyach ac nid yw wedi cael ei throsglwyddo i Gorff Llais y Dinesydd. Fodd bynnag, gall Corff Llais y Dinesydd dynnu sylw Gweinidogion Cymru at faterion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys newidiadau i wasanaethau a'r modd y'u rheolir.
51. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl i Gorff Llais y Dinesydd esbonio pam mae ganddo bryderon. Bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio barn sefydliadau perthnasol y GIG, yn cynnwys tystiolaeth ynglŷn ag unrhyw ymgysylltu/ymgynghoriad a roddwyd ar waith.
52. Gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo sefydliad y GIG i gomisiynu Panel Amlddisgyblaethol Annibynnol i ddarparu cyngor. Byddai modd i'r panel ystyried yr achos clinigol, ynghyd â materion daearyddol, amgylcheddol a chymdeithasol, materion teithio a materion yn ymwneud â llif cleifion, gan argymhell ffordd ymlaen. Bydd yn bwysig sefydlu a chytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer unrhyw adolygiad a sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfleu'n glir. Gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo sefydliad y GIG i roi argymhellion y Panel Annibynnol ar waith.

## **ADRAN 8: CAMAU NESAF**

Yn ogystal ag ystyried ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd a chydweithwyr y GIG i fireinio'r canllawiau hyn ymhellach. Bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill 2023. Y disgwyl yw y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu hadolygu ar ôl bod mewn grym am flwyddyn.